Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands (Cam 2)
Bwletin Adeiladu Cychwynnol - Ionawr 2018

GRIFFITHS
civil engineering and construction



Mae Alun Griffiths (Contractors) Ltd. yn falch ein bod wedi cael ein penodi'n Brif Contractwr gan Gyngor Sir Caerfyrddin i adeiladu Cam 2 Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands.

Rydym wedi dechrau ar y gwaith adeiladu cychwynnol a disgwylir i'r ffordd gyswllt newydd gael ei chwblhau erbyn mis Rhagfyr 2019.

Bydd y ffordd yn gwasanaethu Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands.

Mae'r llwybr yn estyn tuag at y gogledd o Heol y Llew Du i Heol Norton ac ymlaen i'r A476 i'r gogledd-ddwyrain o Gors-las.

Bydd yn darparu mynediad uniongyrchol o'r gogledd i Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands a bydd yn lleihau tagfeydd wrth brif gylchfan yr A48 yn Cross Hands yn ogystal â gwella diogelwch wrth y gyffordd 'chwe ffordd' ar sgwâr Gors-las.

Ein Swyddog Cyswllt Cymunedol



Rydym wedi penodi Swyddog Cyswllt Cymunedol penodedig ar gyfer Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands, sef Gail Jones.

Bydd Gail yn bwynt cyswllt ichi os oes gennych gwestiwn neu bryder ynghylch y cynllun.

Gallwch gysylltu â hi rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn drwy ffonio 0330 041 2182*. Y tu allan i'r oriau hyn, neu os nad yw'n gyfleus iddi ateb eich galwad, gadewch neges a bydd yn cysylltu â chi. Fel arall, gallwch anfon neges at Gail drwy e-bost gail.jones@alungriffiths.co.uk neu drwy ein gwefan gymunedol: community.alungriffiths.co.uk

Nodwyd dechrau'r gwaith o adeiladu Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands ar ddydd Llun, 8 Ionawr 2018.

Yn y llun (o'r chwith): Pennaeth y Priffyrdd a Thrafnidiaeth Stephen Pilliner, Swyddog y Cyngor Brian Jenkins, yr Aelod Lleol dros Gors-las - y Cynghorydd Aled Vaughan Owen, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau - y Cynghorydd David Jenkins, Carwyn Davies o gwmni Griffiths, Arweinydd y Cyngor (a'r Aelod Lleol dros Lannon) Emlyn Dole, Lee Rosser o gwmni Griffiths, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd - y Cynghorydd Hazel Evans, yr Aelod Lleol dros Lannon - y Cynghorydd Dot Jones, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd Ruth Mullen a swyddog y Cyngor Alwyn Williams.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
DINAS-RANBARTH Bae Abertawe Swansea Bay CITY REGION
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Byddem wrth ein boddau o glywed eich sylwadau. Cysylltwch â ni drwy ein gwefan community.alungriffiths.co.uk neu cysylltwch â'n Swyddog Cyswllt Cymunedol, Gail Jones:
0330 041 2182* neu gail.jones@alungriffiths.co.uk
Codir tâl ar gyfradd genedlaethol ar alwadau i'r rhif hwn a chânt eu cynnwys mewn cynlluniau cynhwysol o linellau sefydlog a symudol